| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **5 Mawrth 2015** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau** |
| **AWDUR** | **Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSYLLTIOL** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Derbyniwyd rhybudd:

i) nad yw'r cynghorydd Charles Wyn Jones bellach yn dymuno cael ei drin fel Aelod Unigol a'i fod wedi ymuno gyda Grŵp Plaid Cymru.

1.2 O ganlyniad, mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 36 |
| Annibynnol | 18 |
| Llais Gwynedd | 13 |
| Llafur | 4 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 2 |
| Aelod Unigol | 2 |
| **Cyfanswm** | **75** |

1.3 Ar ddiwedd mis Ionawr, derbyniwyd y newyddion trist am farwolaeth y Cynghorydd Huw Edwards.

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei gwneud yn

haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

## 3. NEWIDIADAU I DDYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

3.1 Mae'r newid yn y cydbwysedd gwleidyddol yn golygu bod Grŵp Plaid Cymru yn ennill sedd ar y Pwyllgor Archwilio ar draul Aelod Unigol sydd yn colli sedd ar y Pwyllgor Archwilio.

3.2 Golyga hefyd fod Grŵp Plaid Cymru yn ennill sedd ar y Pwyllgor Iaith ar draul Aelod Unigol sydd yn colli sedd ar y Pwyllgor Iaith.

3.3 Golyga hefyd fod Grŵp Plaid Cymru yn ennill sedd ar y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol ar draul Aelod Unigol sydd yn colli sedd ar y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol.

(Gweler **Atodiad A**)

3.4 Yn dilyn is-etholiad ward Cadnant, Caernarfon, mae'n bosib y bydd newidiadau pellach i gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

## 4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Cyngor:

- drafod a chytuno ar y newid i ddyraniad y seddau ar y pwyllgorau fel y noder yn 3.1 - 3.3 uchod yn unol â chytundeb y Grŵp Busnes.

**ATODIAD A**

**PWYLLGORAU CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Corfforaethol | 9 | 4 | 3 | 1 | 1 | |
| Cymunedau | 8 | 4 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Gwasanaethau | 9 | 4 | 3 | 1 | | 1 |
| Archwilio | 9 | 5 | 3 | 1 | | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democratiaeth | 7 | 4 | 3 | 1 | | | |
| Iaith | 8 | 4 | 3 | | | | |
| Cynllunio | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | | |
| Trwyddedu Canolog | 7 | 4 | 3 | | | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | | 1 | |
| Penodi Prif Swyddogion | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | | |
| **Nifer y seddau** | **74** | **37** | **27** | **8** | **4** | **4** | **154** |

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Llafur | Democratiaid Rhyddfrydol | Aelod Unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 3 | 2 | 1 | | 1 | | |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 2 | 2 | 1 | | | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 3 | 2 | 1 | | | 1 | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 4 (3 sedd ac un eilydd) | 2 | 1 | 1 | | | |
| CYSAG | 3 | 2 | 2 | | | | |
| **Cyfanswm y Seddau** | **93** | **47** | **34** | **10** | **5** | **5** | **194** |